

## **TRAETHAWD CYNTAF – TAFLEN 1**

### **SUT MAE TRAETHAWD PRIFYSGOL YN WAHANOL I DRAETHAWD 6ED DOSBARTH?**

- Nid dim ond atgynhyrchu nodiadau darlith yw'r nod
- Tynnu ar ffynonellau ehangach (darllen cefndir)
- Angen amrywiaeth o sgiliau ysgrifennu
- Synthesis o farn gwahanol bobl – gan gynnwys y chi

## **TRAETHAWD CYNTAF – TAFLEN 2**

### **BETH YW'R CAMAU WRTH YSGRIFENNU?**

- Gwneud yn siŵr eich bod chi wedi deall y cwestiwn
- Penderfynu pa fath o draethawd yw e: dadl neu grynodedb?
- Cynllunio'r traethawd o flaen llaw – gwneud 'map'
- Cynllunio sut a phryd y byddwch chi'n gwneud y gwaith ymchwil
- Cynllunio sut a phryd y byddwch chi'n gwneud y gwaith ysgrifennu
- Cynllunio sut a phryd y byddwch chi'n golygu ac yn ail-ddrafftio'r traethawd

## **TRAETHAWD CYNTAF – TAFLEN 3**

### **BETH SY’N GWNEUD TRAETHAWD YN UN DA?**

- Mae’n ateb y cwestiwn
- Mae’n dangos ôl gwaith darllen cefndir ac yn cydnabod ffynonellau
- Wedi ei gyflwyno’n dda o ran diwyg a chywirdeb
- Yn rhwydd ac yn fywiog i’w ddarllen
- Yn dangos eich bod chi wedi cymryd gofal
- Yn dangos bod gennych ddiddordeb yn eich pwnc